



# Ynni clyfar i fusnes

Ein hymagwedd at ennyn diddordeb microfusnesau  
yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar

Awst 2015



# Helo

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y papur hwn sy'n amlinellu ein hymagwedd at ennyn diddordeb microfusnesau mewn mesuryddion clyfar. Un o egwyddorion craidd Ynni Clyfar GB yw cydweithio. Mae rhannu gwybodaeth, gwrandao ar adborth ac addasu ein cynlluniau er mwyn i ni fod yn fwy effeithiol yn hanfodol i lwyddiant yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar genedlaethol, a dyna pam, yn y fersiwn hwn o *Ynni clyfar i fusnes*, rydym wedi ymgorffori adborth o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn haf 2015.

Yn ogystal â'r mewnwelediad hynod werthfawr a gafwyd o ymatebion i ymgynghoriadau, rydym wedi galw ar ymchwil, adroddiadau a sgysiau gydag arbenigwyr ym maes mesuryddion clyfar a'r sector microfusnesau i ddatblygu ein hymagwedd. Gwerthfawrogwn haelioni y bobl sydd wedi cymryd rhan yn y ddwy sgwrs honno, wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac ar gyfer eu cyfranogiad parhaus yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar genedlaethol.

Mae ein rôl yn ymwneud ag ennyn diddordeb defnyddwyr domestig a microfusnesau yn y rhaglen mesuryddion clyfar yn hytrach na rheoli'r ymgyrch gyflwyno faterol ei hun. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb a sut y gallwn sicrhau yn gost effeithiol bod hynny'n llwyddiant.

Diolch eto.

# Cynnwys

<b>Pennod 1</b>	<b>04</b>
Cyflwyniad	
<b>Pennod 2</b>	<b>06</b>
Diffinio microfusnesau	
<b>Pennod 3</b>	<b>08</b>
Y daith mesurydd clyfar	
<b>Pennod 4</b>	<b>12</b>
Ennyn diddordeb microfusnesau yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar	
<b>Pennod 5</b>	<b>15</b>
Darllen pellach a dogfennau cysylltiedig	
<b>Llyfryddiaeth</b>	<b>16</b>
<b>Rhestr termau</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad</b>	<b>22</b>

# Pennod 1

## Cyflwyniad a diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r rhaglen genedlaethol i foderneiddio diwydiant ynni Prydain Fawr yn hir-ddisgwyliedig. Pan gaiff ei chwblhau, bydd gennym ni i gyd fwy o reolaeth dros y nwy a'r trydan a ddefnyddiwn. Mae'n dechrau gyda gosod mesuryddion nwy a thrydan clyfar newydd mewn cartrefi a microfusnesau erbyn 2020. Gosod mesuryddion clyfar ar gyfer y sector microfusnesau yw'r hyn y mae'r papur hwn yn ymdrin ag ef.

Ynni Clyfar GB yw'r ymgyrch genedlaethol ar gyfer cyflwyno mesuryddion clyfar. Ein tasg ni yw sicrhau bod defnyddwyr domestig a microfusnesau ym Mhrydain Fawr yn deall beth yw mesuryddion clyfar, sut i gael un a sut y gallant ddefnyddio eu mesuryddion clyfar newydd i fynnu rheolaeth ar eu defnydd o nwy a thrydan.

Mewn perthynas ag ennyn diddordeb defnyddwyr ynni annomestig, mae'r ddeddf a sefydlodd Ynni Clyfar GB yn amlinellu ein rôl fel a ganlyn:

“Pan fydd yn gost-effeithiol i estyn gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr a gyflawnir gan y Corff Cyflwyno Canolog (Ynni Clyfar GB bellach) er mwyn cynnwys ennyn diddordeb Defnyddwyr Ynni mewn Safleoedd Dynodedig Perthnasol, mewn perthynas â'r cyfryw Ddefnyddwyr Ynni.”


Diffinnir Safleoedd Dynodedig fel y rhai:

“Y mae'r Cwsmer ynddynt yn Ddefnyddiwr sy'n Ficrofusnes; a'r cyfryw categorïau ychwanegol o safleoedd a allai gael eu pennu mewn cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”<sup>1</sup>

Rydym ni'n un yn unig o'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar genedlaethol. Y cyflenwyr ynni sy'n gyfrifol am osodiadau ac maen nhw'n cysylltu'n uniongyrchol â'u cwsmeriaid domestig a busnes eu hunain i'w trefnu.

Bydd y system mesuryddion clyfar newydd yn edrych i ryw raddau fel ffigur 1 pan fydd ar waith - er, ar gyfer microfusnesau bydd rhywfaint o amrywiad yn y rhwydwaith cyfathrebu diogel (e.e. defnyddio'r Cwmni Cyfathrebiadau Data) a hefyd yn y ffordd y darperir mynediad i ddata bron mewn amser real.

<sup>1</sup> Gweler yr atodiad am y diffiniad o ficrofusnes, wedi'i sefydlu gan yr amodau trwydded cyflenwi Trydan a Nwy



Ffigur 1  
Y system mesuryddion clyfar

Mae cyflenwyr a gosodwyr wedi'u rhwymo gan y *Côd Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar* (SMICoP) sy'n darparu ar gyfer gosodiadau mewn eiddo domestig ac annomestig fel ei gilydd.

Rydym eisoes wedi dechrau ar weithgareddau ennyn diddordeb gyda microfusnesau yn unol â chynnydd yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar a graddfa gyfredol y gweithgareddau ennyn diddordeb cwsmeriaid domestig. Mae'r papur hwn yn darparu amlinelliad bras o'n dealltwriaeth gyfredol o ficrofusnesau mewn perthynas â mesuryddion clyfar a'n hymagwedd at eu cefnogi nhw wrth i'r rhaglen symud tuag at gyflwyno ar raddfa eang.

# Pennod 2

## Diffinio microfusnesau

Mae microfusnesau'n cyfrif am oddeutu 96 y cant o'r holl fusnesau yn y DU<sup>2</sup>, sef tua 4,897,400<sup>3</sup> ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn estyn ar draws amrediad eang o fusnesau ar draws nifer enfawr o sectorau. Felly, mae disgrifio microfusnes nodweddiadol at ddiben sut y gellir ennyn eu diddordeb mewn mesuryddion clyfar yn anodd. Er hynny, mae nifer o ddiffiniadau sydd eisoes yn bodoli y gallwn eu defnyddio. Mae'r diffiniadau hyn yn tueddu i adlewyrchu cyfuniad o niferoedd cyflogeion a throsiant (y mae'r ddau ohonynt yn amrywio'n enfawr fesul sector), ac yng nghyd-destun ynni, maen nhw'n cynnwys paramedrau defnyddio ynni hefyd.

Mae'r ddeddf a sefydlodd Ynni Clyfar GB (gweler yr Atodiad) yn diffinio microfusnesau fel defnyddiwr annomestig sy'n cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:

- cyflogi llai na 10 o gyflogeion (cyfwerth ag amser llawn) a throsiant neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na €2 miliwn; neu
- ddefnyddio uchafswm o 293,000kWh o nwy y flwyddyn; neu
- defnyddio uchafswm o 100,000 kWh o drydan y flwyddyn

Er mwyn i ennyn diddordeb yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar genedlaethol fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol y gall cynulleidfaoedd sy'n microfusnesau adnabod eu hunain felly yn hawdd. Barn gyffredinol budd-ddeiliaid, yn deillio o'n sgysiau ein hunain ac yn adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o'r farchnad ac yn ein hymgyngoriad *Ynni Clyfar i fusnes* ein hunain ym mis Gorffennaf 2015 yw nad yw microfusnesau'n deall nac yn gwybod am eu defnydd o ynni'n aml, gyda llawer nad ydynt yn ymwybodol o'r gost fisol neu

flynyddol ychwaith. Felly gallai'r paramedrau mewn perthynas â defnydd o ynni o fewn y diffiniad achosi mwy o ddryswch nag eglurder at ddibenion ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb cychwynnol.

Ein tasg ni yw helpu microfusnesau i ddeall beth yw mesuryddion clyfar, sut i gael un a sut y gallant ddefnyddio'u mesurydd clyfar newydd i fynnu rheolaeth ar y defnydd o nwy a thrydan. Mae hyn yn cynnwys eu hysgogi nhw i bennu'u cymhwyster trwy siarad â'u cyflenwyr ynni. Gan hynny, at ddiben ennyn diddordeb microfusnesau, bwriadwn ddilyn y gysail o ddefnyddio elfen nifer o gyflogeion y diffiniad, wedi geirio fel:

- cyflogi llai na 10 o gyflogeion (cyfwerth ag amser llawn)

Gwyddwn hefyd fod 52.5%<sup>4</sup> o microfusnesau'n defnyddio eiddo domestig fel eu prif safle busnes. Ni fydd angen mesurydd clyfar ar wahân ar gyfer eu busnesau ar y perchnogion busnes hyn a byddant yn cael eu cynnwys fel perchnogion tai gyda'r ymgyrch defnyddwyr domestig.

<sup>2</sup> Tŷ'r Cyffredin, *Small Businesses and the UK Economy*, Rhagfyr 2014

<sup>3</sup> Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Business population estimates*, Tachwedd 2014

<sup>4</sup> Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Business population estimates*, Tachwedd 2014

Mae angen i'n diffiniad ni fod yn hawdd i'w ddeall ac yn berthnasol i gynifer o microfusnesau â phosib. Mae diffinio microfusnesau fesul nifer o gyflogeion yn ddull syml o gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fesuryddion clyfar a'r ymgyrch gyflwyno genedlaethol heb fod angen i'r busnesau hyn wybod yn syth beth yw eu trosiant neu ddefnydd o ynni (rhywbeth nad yw llawer ohonynt yn ei wybod). Cydnabyddwn na fydd rhai o'r sefydliadau sy'n bodloni'r maen prawf 'llai na 10 o gyflogeion' yn cyfateb i'r meini prawf defnydd ynni. Yn ein cyfathrebiadau, bwriadwn cynnwys cafeat y gallai rhai cyfyngiadau fod yn berthnasol. Nid yw ein rôl yn cynnwys perthnasoedd un i un gyda defnyddwyr ac er y byddwn yn defnyddio'r diffiniad 'llai na 10' yn ein cyfathrebiadau ein hunain, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys cyflenwyr, sy'n cymhwysu amrywiad ar y diffiniad DECC i adnabod microfusnesau.

Mae'r sector microfusnesau'n gymhleth ac yn amrywiol. Yn ôl amcangyfrifon 2010 yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau<sup>4</sup>, mae microfusnesau'n bodoli ar draws y mwyafrif o ddiwydiannau. Gan ddefnyddio Dosbarthiadau Safonol y Diwydiant (codau SIC) gallwn weld bod gan rai diwydiannau gyfran uwch na rhai eraill (megis manwerthu; adeiladu; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol) a bydd hynny wedi'i adlewyrchu yn ein hymagwedd at ennyn diddordeb y sector yn effeithiol.

Gwyddwn hefyd fod 52.5 y cant<sup>5</sup> o microfusnesau'n defnyddio eiddo domestig fel eu prif safle busnes. Ni fydd angen mesurydd clyfar ar wahân ar gyfer eu busnesau ar y perchnogion busnes hyn a byddant yn cael eu cynnwys fel perchnogion tai gyda'r ymgyrch defnyddwyr domestig.

Mae gan y perchnogion microfusnes sy'n weddill (47.5 y cant), tua 2,326,265 ohonynt, ryw fath o safle ar wahân, er bod amrywiad mawr yn y mathau o safleoedd, perchnogaeth neu amodau tenantiaeth (e.e. rhan o eiddo domestig wedi'i drawsnewid y gallai rhai cyflenwyr ystyried ei fod yn annomestig; wedi'i rentu gyda gwasanaeth a biliau wedi'u cynnwys; rhentu ar sail amlddeiliadaeth lle nad oes gan denantiaid unigol fynediad i'r mesurydd) y maent oll yn debygol o gael effaith ar berthnasoedd y busnesau hyn ag ynni a'r cyflenwyr ynni.

Rydym yn deall y ceir gwahaniaethau o ran cyflenwad o fewn y farchnad annomestig o'i gymharu â'r farchnad ddomestig, yn bennaf ei bod yn fwy bratiog yn y dewis o gyflenwyr; mae llawer mwy o gyflenwyr ynni bach; presenoldeb cyfryngwyr trydydd parti (TPI) a broceriaid ynni; a diffyg tryloywder mewn prisiau ynni ar gyfer busnesau. Mae'n debygol y bydd y ffactorau hyn yn effeithio ar y berthynas rhwng microfusnesau a'r ynni y maent yn ei ddefnyddio.

Mae <sup>6</sup>TPI a broceriaid ynni'n ystyriaeth ar gyfer ein strategaeth ennyn diddordeb microfusnesau, o feddwl bod 21 y cant o microfusnesau'n defnyddio brocer dim ond ar gyfer trydan a 27 y cant ar gyfer nwy (o'i gymharu â pherthynas uniongyrchol â'r cyflenwr). Byddwn yn archwilio p'un a yw broceriaid yn creu cyfle yn eu rolau fel cyfryngwyr yn hytrach na chreu rhwystr i ennyn diddordeb yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar.


<sup>5</sup> Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Small Business Survey 2014: Businesses with employees*, Mawrth 2015 a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Small Business Survey 2014: Businesses with no employees*, Mawrth 2015

<sup>6</sup> Ofgem, *Quantitative research – Non-domestic customer engagement and experience in the energy market*, Tachwedd 2012

# Pennod 3

## Y daith mesurydd clyfar

Y daith mesurydd clyfar, a'r rolau a rannwn gyda'r cyflenwyr ynni, isod:



Ffigur 2  
Y daith mesurydd clyfar

Mae'r daith ar gyfer microfusnesau yr un peth yn gyffredinol ag y mae ar gyfer defnyddwyr domestig, er y gall ennyn diddordeb ac ymddygiad mewn camau gwahanol o'r daith amrywio ar draws y ddau grŵp.

Yn y cam hwn o'r ymgyrch gyflwyno, mae'r mwyafrif o gwsmeriaid annomestig gyda gosodiad mesurydd clyfar wedi cael y gosodiad hwnnw ar ôl derbyn cyswllt gan eu cyflenwr ynni (dim ond 5 y cant sydd wedi gofyn am un yn rhagweithiol)<sup>7</sup>. Mae hyn yn awgrymu nad yw dau gam cyntaf y daith yn bresennol mewn llawer o achosion a allai, yn ei dro, gyfrannu at y lefelau cymharol isel o reoli ynni'n weithredol ar ôl y gosodiad (dim ond 11 y cant sydd wedi cymryd camau dilynol i leihau eu defnydd o ynni)<sup>8</sup>.

Mae'r buddion sydd i'w gwireddu trwy fesuryddion clyfar ar gyfer microfusnesau'n sylweddol, gwerth tuag £1.44 biliwn mewn buddion net i ddefnyddwyr sy'n ficrofusnesau<sup>9</sup>. Nodwyd cost trydan y prif gyflenwad fel y pryder pennaf o ran costau ar gyfer busnesau bach gan 46 y cant o fusnesau mewn adroddiad gan Gyngor ar Bopeth yn 2014<sup>10</sup>. Ac rydym yn gwybod bod effeithlonrwydd ynni'n fater pwysig ar gyfer busnesau bach am resymau arbed costau ac amgylcheddol. Dangosodd ymchwil a gyflawnwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn 2015 fod 78 y cant o'r rhai a ymatebodd wedi rhestru arbed ynni fel cymhelliant ar gyfer cyflawni mesurau effeithlonrwydd ynni a bod 70 y cant wedi nodi ffactorau amgylcheddol. Nododd yr un ymchwil hefyd y bydd mesuryddion clyfar yn offeryn hanfodol ar gyfer darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar fusnesau bach i wneud penderfyniadau rhagweithiol am ddefnyddio ynni<sup>11</sup>.

<sup>7</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>8</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>9</sup> Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Smart Meter Impact Assessment*, 2014

<sup>10</sup> Cyngor ar Bopeth, *The experiences of small businesses as consumers in regulated markets*, Medi 2014

<sup>11</sup> Ffederasiwn Busnesau Bach, *Datganiad i'r Wasg*, 25 Mai 2015



Nododd yr ymchwiliad a gyflawnwyd gan Ddyfodol Defnyddwyr (bellach yn rhan o Gyngor ar Bopeth) ym mis Awst 2013 deimladau cadarnhaol cynnar am fesuryddion clyfar gan fusnesau, er gwaethaf lefelau isel o ymholiadau rhagweithiol. O'r 95 y cant nad oeddent wedi gofyn yn rhagweithiol am osodiad, bu 46 y cant yn gadarnhaol am y syniad o gael, 46 y cant yn niwtral ac 8 y cant yn unig yn negyddol, a hynny'n bennaf pan deimlwyd nad oedd modd dewis cael gosodiad ai beidio<sup>12</sup>.

Mae buddion mesuryddion clyfar yn bodoli ar sawl lefel ac maent yn debygol o gael eu profi i raddau lleiaf a helaeth gan ddibynnu ar y math o microfusnes a diwydiant. Mae'r buddion mwyaf cymhellol ar gyfer y mwyafrif o microfusnesau unigol a nodwyd gan Ipsos Mori ar gyfer yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DECC) wedi'u hadrodd fel<sup>13</sup>:

- biliau cywir, ac yn benodol osgoi anghydfod ynghylch biliau
- dim angen darllen y mesurydd mwyach
- y gallu i dracio a monitro patrymau ynni
- arbed arian

Mae'r dymuniad am filiau cywir wedi'i adnabod mewn nifer o bapurau. Nododd Dyfodol Defnyddwyr mai 'biliau cywirach' oedd y cymhelliant mwyaf arwyddocaol gyda 48 y cant o ymatebwyr yn nodi hynny fel eu prif reswm, yn erbyn yr ail reswm mwyaf, sef 'dileu ffwdan darllen mesuryddion', ar 26 y cant. Atebion heb eu hysgogi a roddwyd gan fusnesau yr oeddent wedi gofyn am osodiad yn rhagweithiol oedd y rhain.

Er hynny, rydym yn cadw mewn cof y ceir rhwystrau posib i wireddu buddion llawn mesuryddion clyfar. Mae'r rhwystrau hyn wedi'u codi gan nifer o sefydliadau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Dyfodol Defnyddwyr a DECC. Mae'r rhwystrau hyn wedi'u hachosi gan amgylchiadau busnesau a natur gynhenid ymgyrch mor gymhleth â hon. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar i oresgyn y rhwystrau hyn pan fyddant yn berthnasol i'r dasg o ennyn diddordeb a'i fod yn briodol i wneud hynny. Yn fras, mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys:

<sup>12</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>13</sup> Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Attitudes towards and experiences of smart meters in the non-domestic SME market*, Hydref 2013

- y posibilrwydd na fydd microfusnesau'n adnabod eu hunain eu bod yn gymwys i gael mesurydd clyfar; neu efallai na fyddant yn deall dewis pwy ydyw a phwy sy'n gyfrifol (yn enwedig ar safle busnes wedi'i rentu neu amlddeiliadaeth, ac wrth ddefnyddio TPI neu frocer ynni)
- diffyg amser neu gymhellant i flaenoriaethu gofyn am fesurydd clyfar (mae gan 46 y cant o'r rhai nad ydynt wedi gofyn am fesurydd clyfar deimladau niwtral am gael un<sup>14</sup>); neu ymwneud ag ef a rheoli'r defnydd o ynni'n weithredol ar ôl iddo gael ei osod<sup>15</sup>
- diffyg ymwybyddiaeth neu gred yn y buddion y bydd mesuryddion clyfar yn eu creu ar gyfer eu busnes (ni allai 41 y cant o fusnesau heb fesurydd clyfar nad ydynt yn croesawu'r syniad o gael un feddwl am unrhyw fuddion posib a fyddai'n deillio o gael un<sup>16</sup>)
- canfyddiadau o ymyrryd â busnes fel arfer (er y dangosodd yr ymchwil gan Ddyfodol Defnyddwyr fod busnesau'n fodlon ar hyd yr ymweliad, 72 y cant; ac ar lefel yr aflonyddwch a achoswyd, 80 y cant<sup>17</sup>)
- dryswch rhwng mesuryddion soffistigedig a mesuryddion clyfar; nid oes gan 79 y cant o microfusnesau unrhyw ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng y ddau<sup>18</sup>. Mae cwestiynau cyffredin annomestig DECC ar gyfer mesuryddion clyfar yn disgrifio'r gwahaniaeth fel a ganlyn –

“Gall pob mesurydd clyfar gyfateb i'r diffiniad o fesurydd soffistigedig, ond ni all pob mesurydd soffistigedig fod yn glyfar. Yn gyffredinol gall mesuryddion clyfar gyfathrebu'r ddwy ffordd a chyflawni ystod ehangach o swyddogaethau”<sup>19</sup>.

<sup>14</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>15</sup> Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Attitudes towards and experiences of smart meters in the non-domestic SME market*, Hydref 2013

<sup>16</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>17</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>18</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>19</sup> DECC, *Smart Meter Implementation Programme, Non-Domestic Q&A*, Medi 2013

- prosesau trosglwyddo annigonol (dim ond ychydig dros draean o'r busnesau sydd wedi cael gosodiad mesurydd clyfar oedd yn fodlon ar y cam hwnnw o'r gosodiad<sup>20</sup>)
- cefnogaeth annigonol ar ôl y gosodiad, naill ai o ran gwybodaeth am sut i newid y defnydd o ynni, neu ddim mynediad i ddata bron mewn amser real fel nodwedd safonol heb unrhyw gost ychwanegol<sup>21</sup>.
- diffyg cyfle i newid naill ai eu defnydd o ynni neu eu cyflenwr ynni, yn enwedig pan fydd y busnes yn gweithredu o safle a rentir (mae oddeutu 43 y cant o'r holl microfusnesau ar safle a rentir<sup>22</sup>; ac mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn amcangyfrif bod tua 10 y cant o'u haelodau'n destun cytundebau rhent sy'n cynnwys y biliau ynni<sup>23</sup>)
- gosod mesuryddion clyfar ar safleoedd heb bersonél – byddai busnesau ar y cyfryw safleoedd yn profi lefel arall o anghyfleustra wrth ddarparu mynediad i'r safle hwnnw a dylid cadw hyn mewn cof (ymateb *Ynni clyfar i fusnes cyfrinachol*)
- pryderon ynghylch datgysylltu o bell – mae rhai busnesau bach yn ofni y gallai mesuryddion clyfar arwain at risg gynyddol o ddatgysylltu o bell, gan beri iddynt deimlo'n fregus a chyda llai o reolaeth. (ymateb *Ynni clyfar i fusnes cyfrinachol*)

Felly, er i ni gydnabod ystod o rwystrau y bydd angen eu goresgyn, rydym yn hyderus hefyd y caiff mesuryddion clyfar eu croesawu gan microfusnesau ac y bydd y buddion ar ôl y gosodiad yn sylweddol ar lefel macro a micro. Mae'r amwysedd a adroddir gan rai papurau a gyhoeddwyd hyd yma o ganlyniad, yn rhannol, i ddiffyg gwerthfawrogiad presennol o'r ystod gyfan o fuddion y gall mesuryddion clyfar eu cyflwyno, a dyma rywbeth y byddwn yn mynd i'r afael ag ef trwy ein hymgyrchoedd ennyn diddordeb ar gyfer defnyddwyr domestig a microfusnesau.

<sup>20</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>21</sup> SMICoP, *Côd Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar v.2.0*, Chwefror 2015

<sup>22</sup> Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013

<sup>23</sup> Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, *Crynodeb o wrandawriad gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach ar 16 Rhagfyr 2014*

# Pennod 4

## Ennyn diddordeb microfusnesau yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar

Mae angen amlwg am ennyn diddordeb microfusnesau yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar, i sicrhau eu bod yn gadarnhaol am fuddion mesuryddion clyfar a'u bod wedi'u grymuso i fanteisio ar y buddion hynny ym mhob cam o'r daith mesurydd clyfar. Bydd ein ffocws uwchben ein gweithgareddau a dargedir at ddefnyddwyr domestig ar y busnesau hynny sydd â safleoedd busnes ar wahân yn hytrach na'r bron hanner sy'n gweithio o eiddo domestig.

Fel a grybwyllwyd ym mhennod 1 a 2 o'r papur hwn, gall Ynni Clyfar GB estyn ein cyfathrebiadau i ddefnyddwyr domestig pan fydd yn gost- effeithiol i wneud hynny. Bwriadwn wario canran gymesur o'n cyllideb ar ennyn diddordeb microfusnesau mewn dwy ffordd:

- estyn y *neges* ar gyfer defnyddwyr domestig i microfusnesau - i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â pherthnasedd, blaenoriaethu, dealltwriaeth a defnydd
- estyn y *sianelau* a ddefnyddiwn er mwyn i ni gyrraedd microfusnesau a throsoli dylanwad a chefnogaeth gan drydydd partion pryd y mae eu hangen fwyaf.

### Estyn y neges ar gyfer defnyddwyr domestig

Fel gyda'r ymgyrch defnyddwyr domestig, bydd y negeseuon yn newid wrth i ni symud trwy'r ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar ac wrth i ddealltwriaeth cynulleidfaoedd esblygu a ffigurau gosodiadau godi. Mae'n debygol y bydd y negeseuon yn adlewyrchu'r cynnyrch creadigol Gaz a Leccy a ddatblygwyd i'r farchnad defnyddwyr domestig a'r ffilmiau addysgol rydym wedi'u creu ar gyfer budd-ddeiliaid a phartneriaid. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o'r ddau fath hwn o gyfathrebiad yn [smartenergygb.org/cy](http://smartenergygb.org/cy) Byddwn yn datblygu negeseuon sy'n ymdrin, pryd bynnag y gallwn, â'r rhwystrau a ddisgrifir yn fras yn

y papur hwn, ac sy'n amlygu'r buddion mesuryddion clyfar y gwyddwn mai nhw yw'r rhai mwyaf dymunol i microfusnesau. Mae'r cymysgedd o ddau fath hwnnw o gyfathrebiad yn golygu bod gennym hyblygrwydd o ran ein dulliau cyfathrebu ar gyfer pob diben a sianel. Fel gyda'n holl ymgyrchoedd, rydym yn cymhwysio dull ymchwilio cadarn i sicrhau eu bod yn effeithiol, effeithlon a chymesur.

### Estyn y sianelau a ddefnyddiwn

Rydym wedi datblygu ymagwedd a fydd yn golygu y gallwn ennyn diddordeb microfusnesau ar nifer o lefelau, gan ddarparu amrywiaeth o ran cymhlethdod a manylder yr wybodaeth. Seiliwyd yr ymagwedd hon ar argymhellion a gyhoeddwyd mewn perthynas â microfusnesau a mesuryddion clyfar (gweler y llyfryddiaeth ar ddiwedd y papur hwn), gan ddysgu gwersi o ymgyrchoedd blaenorol sydd wedi ymwneud ag ennyn diddordeb microfusnesau ar raddfa dorfol, ac o'n sgysiau gydag arbenigwyr a budd-ddeiliaid o'r sector microfusnesau. Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebion i'n hymgyngoriad *Ynni clyfar i fusnes* yn haf 2015 fod yr ymagwedd hon yn gymesur â'n tasg. Bydd awgrymiadau i'n helpu ni i gynllunio a mireinio manylder ein hymagwedd yn cael eu hystyried hefyd.

Mae ein hymagwedd yn cynnwys tair elfen fel a ddisgrifir isod:



Figur 3  
Sut rydym yn bwriadu ennyn diddordeb microfusnesau

### Cyfryngau arbenigol wedi'u targedu

Mae cyfryngau busnes arbenigol yn ymestyn ar draws print, ar-lein, radio (digidol a darlledu) a byddwn yn adolygu pob opsiwn i greu'r cynllun mwyaf effeithiol.

Er i ni gydnabod bod microfusnesau'n sector amrywiol iawn ac na allwn ennyn diddordeb pob un ohonynt trwy gyfryngau y telir amdanynt, ceir rhai dewisiadau cyfryngau arbenigol effeithlon a fydd yn weladwy ac yn cyrraedd ymhellach. Mae'r rhain yn llorweddol (cyhoeddiadau busnes a rheoli cyffredinol sy'n apelio at berchnogion busnesau ym mha ddiwydiant bynnag y maent, ac yn ymdrin â materion cyffredin perchen ar fusnes); a fertigol (sef teitlau diwydiannau penodol yn adlewyrchu materion a chyfleoedd sy'n berthnasol i'r diwydiant hwnnw'n unig).

### Partneriaethau â sefydliadau ymgynghorol

Mae yna lawer o sefydliadau sydd â pherthnasoedd un i un gyda microfusnesau y byddwn yn gofyn iddynt gydweithio â ni i raeadru gwybodaeth i'w haelodau/buddiolwyr. Bydd y rhain yn cynnwys sefydliadau aelodaeth, proffesiynol, ymgynghorol, cyflenwi, cyfryngu a rhwydweithio (yn gweithredu ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol, y mae'r ddau ohonynt yn berthnasol) sy'n adlewyrchu buddiannau busnes cyffredinol a sectorau diwydiant penodol a byddwn yn anelu at weithio gyda'r cyfuniad mwyaf effeithiol o'r ddau.

Wedi'i gynnwys o fewn y grŵp hwn mae darparwyr gwasanaethau i microfusnesau sydd â sgysiau cyfredol am bynciau mewn perthynas â mesuryddion clyfar (e.e. costau ynni, busnes, eiddo neu gynladwyedd). Ceir budd deul o weithio gyda'r cyfryw sefydliadau - maent yn darparu dull a dargedir i ni gyrraedd busnesau a allai fod yn gymwys; ac maen nhw'n caniatáu amrywiaeth ehangach o gyfathrebiadau, gan gynnwys y posibilrwydd o drafodaethau manylach pan fydd angen.

Wrth weithio gyda phartneriaid i gyrraedd microfusnesau, byddwn yn cymhwyso'r un egwyddorion yr ydym yn eu cymhwyso wrth weithio gyda phartneriaid i gyrraedd defnyddwyr domestig. Hynny yw, gweithio ar y cyd gyda'r partneriaid, gan ddarparu gwybodaeth, deunyddiau, hyfforddiant neu waith cyflwyno defnyddiol a arweinir gan fewnwelediad, a sicrhau bod y gwaith a wnawn gyda'n gilydd yn cael effaith barhaus a chadarnhaol ar eu sefydliad.

#### Partneriaethau â sefydliadau a all ddarparu sianelau cyfathrebu uniongyrchol

Mae nifer o sefydliadau sy'n cyfathrebu â busnesau bach yn weddol reolaidd am faterion sy'n gritigol i fusnesau. Byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu data, datblygu darnau cyfathrebu ar y cyd neu ychwanegu darnau cyfathrebu atodol am fesuryddion clyfar i fentrau cyfredol er mwyn i ni ennyn diddordeb microfusnesau yn effeithiol trwy bost uniongyrchol.

Ceir gorgyffwrdd amlwg ar draws y tair elfen pan fydd sefydliad partner, o bosib, yn berchen ar y wasg arbenigol fwyaf effeithiol ar gyfer eu diwydiant. Bydd y cynllunio mwy gronynnog yn ein cam datblygu nesaf yn pennu pwysiad y gweithgareddau ar draws yr elfennau hyn, gyda'r ffocws ar ddod o hyd i'r dull mwyaf effeithlon ac effeithiol i ennyn diddordeb busnesau ac ar yr un pryd cynnwys yr holl amgylchiadau a sectorau.

Pan fyddwn yn edrych ar sectorau fertigol, byddwn yn cyfeirio ar *Amcangyfrifon Poblogaeth* yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, sy'n adnabod ym mha sectorau y mae microfusnesau'n fwyaf cyffredin, a blaenoriaethu'r sectorau hynny wrth chwilio am sefydliadau partner, neu gynllunio cyfryngau arbenigol y telir amdanynt. Byddwn yn parhau i gywain mewnwelediad i gyfeirio a mireinio'n cynlluniau ymhellach dros fywyd yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar.

# Pennod 5

## Darllen pellach a dogfennau cysylltiedig

Mae'r adnoddau a dogfennau a ganlyn yn darparu rhywfaint o gefndir defnyddiol i'r papur hwn. Maent yn darparu mwy o wybodaeth amdanom ni (ein rôl a'n cynnydd) a'r ymchwil ddiweddaraf am ymwybyddiaeth o fesuryddion clyfar, mabwysiadu a chanfyddiad.

Ynni Clyfar GB

[smartenergyGB.org/cy](http://smartenergyGB.org/cy)

- *Adroddiad Blynyddol 2014*
- *Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr*
- *Ynni clyfar i bawb*; papur ymgynghori ar adnabod nodweddion cynulleidfa a allai fod yn rhwystrau ychwanegol i wireddu buddion mesurydd clyfar

Gellir dod o hyd i'r rhain i gyd yn Gymraeg a Saesneg yn:

[smartenergyGB.org/national-rollout/about-smart-energy-gb/essential-documents](http://smartenergyGB.org/national-rollout/about-smart-energy-gb/essential-documents)

*Rhagolwg Ynni Clyfar*, Mawrth 2015

[smartenergyGB.org/sites/default/files/Smart%20Energy%20Outlook%20March%202015%20For%20ONLINE%20Publication.pdf](http://smartenergyGB.org/sites/default/files/Smart%20Energy%20Outlook%20March%202015%20For%20ONLINE%20Publication.pdf)

Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Asesiad Effaith*, 2014

[gov.uk/government/publications/smart-meter-roll-out-for-the-domestic-and-small-and-medium-non-domestic-sectors-gb-impact-assessment](http://gov.uk/government/publications/smart-meter-roll-out-for-the-domestic-and-small-and-medium-non-domestic-sectors-gb-impact-assessment)

# Llyfryddiaeth

A

1. Accent Scotland, *Quantitative research into non domestic customer engagement and experience of the energy market – Adroddiad*, Tachwedd 2012.
2. Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Business population estimates*, Tachwedd 2014.
3. Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Growing your business: A report on growing micro businesses*, Mai 2013.
4. Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Small Business Survey 2014: Businesses with employees*, Mawrth 2015.
5. Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Small Business Survey 2014: Businesses with no employees*, Mawrth 2015.
6. Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Smart Metering Implementation Programme - government response to the consultation on the consumer engagement strategy*, Rhagfyr 2012.
7. Adran Polisi Cystadleuaeth, *Small businesses as consumers: Are they sufficiently well protected? – Adroddiad ar gyfer y Ffederasiwn Busnesau Bach*, Ionawr 2014.
8. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Asesiad effaith – Smart meter roll-out for the non-domestic sector (GB)*, Ebrill 2012.
9. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Asesiad effaith – Smart meter roll-out for the domestic and small and medium non-domestic sectors (GB)*, Ionawr 2013.
10. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Asesiad effaith – Smart meter roll-out for the domestic and small and medium non-domestic sectors (GB)*, Ionawr 2014.
11. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Attitudes towards and experiences of smart meters in the non-domestic SME market*, Hydref 2013.
12. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Energy behaviours of people occupying non-domestic buildings*, Tachwedd 2012.
13. Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Smart metering enabled innovation in energy in energy management in the non-domestic sector*, Ionawr 2015
14. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Smart metering implementation programme – Smart metering for non-domestic customers*, Ionawr 2013.
15. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Smart metering non domestic leaflet*, Medi 2013.
16. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, *Smart meters, Great Britain, quarterly report to end June 2014*, Medi 2014.
17. Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, *Crynodeb o wrandawriad gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach ar 16 Rhagfyr 2014*.
18. Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, *Energy market investigation – Case studies on barriers to entry and expansion in the retail supply of energy in Great Britain*, Chwefror 2015.
19. Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, *Energy market investigation – Microbusinesses*, Mawrth 2015.

C

20. Comisiwn Diwydiannau Amgylcheddol, *Use of smart meter data to drive behaviour change*, 2014.
21. Comisiwn y Gyfraith, *Reforming insurance contract law – Issues paper 5: micro-businesses*, Ebrill 2009.



22. Cyngor ar Bopeth, *Smart meters for SMEs*, Hydref 2014.
23. Cyngor ar Bopeth, *The experiences of small businesses as consumers in regulated markets*, Medi 2014.
- D
- F
24. Dyfodol Defnyddwyr, *A smart business? – Small and micro-businesses' experiences of smart meters*, Awst 2013.
25. Ffederasiwn Busnesau Bach, *Datganiad i'r Wasg*, Mai 2015
26. Ffederasiwn Busnesau Bach, *Response to consumer empowerment and protection in smarter markets*, Ionawr 2014.
27. Ffederasiwn Busnesau Bach, *Small business and infrastructure: Energy*, Gorffennaf 2011.
- G
28. Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE) a Sefydliad Newid Amgylcheddol Prifysgol Rhydychen (ECI), *What are the factors influencing energy behaviours and decision-making in the non-domestic sector?: A rapid evidence assessment*, Tachwedd 2012.
- I
29. Insight Exchange, *Research into the proposed standards of conduct – non-domestic consumers: Full report*, Rhagfyr 2012.
- L
30. Llais Defnyddwyr, *Small business, big price*, Mai 2011.
31. Llais Defnyddwyr, *Suppliers' back billing commitments to micro-business consumers*, Diweddariad diwethaf - Mawrth 2013.
32. Llais Defnyddwyr, *Under the microscope – Reviewing the micro-business energy market*, Hydref 2012.
33. Llais Defnyddwyr, *Watching the middlemen: Brokerage services for micro-business energy consumers*, Chwefror 2011.
34. Llais Defnyddwyr, *Y Fargen Werdd: Microfusnesau*, 2010.
- O
35. Ofgem, *Consumer empowerment and protection in smarter markets*, Rhagfyr 2013.
36. Ofgem, *Decision on automatic rollovers and contract renewals for micro-business consumers*, Tachwedd 2014.
37. Ofgem, *Defining "micro-business"*, Ionawr 2010.
38. Ofgem, *Micro-business back billing: Publication of supplier data covering April 2012 - March 2013*, Rhagfyr 2013.
39. Ofgem, *Non-domestic consumers and the Change of Supplier process – Qualitative research findings*, Rhagfyr 2013.
40. Ofgem, *Proposals for non-domestic automatic rollovers and contract renewals*, Chwefror 2014.
41. Ofgem, *Proposals for regulating non-domestic third party intermediaries (TPIs)*, Chwefror 2014.
42. Ofgem, *Quantitative research – Non-domestic customer engagement and experience in the energy market*, Tachwedd 2012.
43. Ofgem, *Retail market review – protecting businesses*, Gorffennaf 2013.
44. Ofgem, *Small and medium business consumers' experience of the energy market and their use of energy*, Mawrth 2011.

S

45. SMICoP, *Côd Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar v.2.0*, Chwefror 2015.

46. Swyddfa Ystadegau Gwladol, *UK standard industrial classification of economic activities 2007 (UK SIC 2007)*, Rhagfyr 2009.

T

47. Tŷ'r Cyffredin, *Business statistics*, Tachwedd 2014.

48. Tŷ'r Cyffredin, *Small Businesses and the UK Economy*, Rhagfyr 2014.

# Rhestr termau

Term	Disgrifiad
<b>Amod(au) trwydded</b>	O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989, gellir cyflawni gweithgareddau penodol, h.y. cynhyrchu, trawsgludo, dosbarthu a chyflenwi ar gyfer nwy a thrydan dim ond gyda thrwydded (neu o dan esgusodiad neu eithriad perthnasol). Mae'r holl gyflenwyr ynni ym Mhrydain Fawr yn gweithredu o dan Amodau Trwyddedau Cyflenwi (defnyddwyr domestig ac annomestig).
<b>Brocer ynni</b>	Yn adolygu ac yn cyflwyno cynigion gan ystod o gyflenwyr ar gyfer y defnyddiwr ynni.
<b>Côd Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar</b>	<p>Mae'r <i>Côd Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar</i> (SMICoP) yn pennu'r safonau ymddygiad gofynnol i gyflenwyr eu dilyn trwy gydol y daith mesurydd clyfar. Mae'r Côd yn fandadol ac yn berthnasol i bob cyflenwr domestig a microfusnesau, ac eithrio pan fydd y Côd yn datgan yn echblyg bod yr amodau'n berthnasol i'r naill na'r llall.</p> <p>Nid yw cyflenwyr cwsmeriaid sy'n microfusnesau'n destun rhwymedigaethau trwydded i ddarparu ar gyfer bregusrwydd.</p>
<b>Cwmni Cyfathrebiadau Data</b>	Yr isadeiledd cyfathrebu sy'n sail i'r system mesuryddion clyfar gyfan. Mae'r system hon yn galluogi data i gael ei ddanfôn rhwng yr holl gwsmeriaid a'r holl gyflenwyr ynni.
<b>Cyfarpar mesuryddion clyfar</b>	Yn cyfeirio at unrhyw ran o'r offer y mae ei angen i ddarparu swyddogaethau mesurydd clyfar i ddefnyddiwr ar eu safle.
<b>Cyflenwr ynni</b>	Cyflenwr/cyflenwyr sydd wedi'u trwyddedu i gyflenwi nwy a/neu drydan.
<b>Cyfryngwyr trydydd parti</b>	Partion sy'n ymwneud â gweithgareddau uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng cwsmer domestig neu annomestig a chyflenwr ynni i gynorthwyo defnyddwyr gyda'u hanghenion cyflenwi ynni.
<b>Defnydd o ynni</b>	Defnydd o ynni yw defnyddio ynni fel ffynhonnell gwres neu bŵer. Mae'r defnydd o ynni'n cael ei fesur gan fesurydd a chodir tâl ar ddeiliaid cyfrif ar gyfer ei ddefnyddio.
<b>Defnyddiwr</b>	Yr unigolyn/unigolion sy'n meddiannu'r safle lle mae'r mesurydd clyfar i gael ei osod, neu sy'n oedolyn cyfrifol gydag awdurdod priodol i ganiatáu mynediad i'r safle.

Term	Disgrifiad
<b>Deiliad cyfrif</b>	Rhywun sy'n dal y cyfrif gyda chyflenwr ynni Y deiliad cyfrif yw'r unigolyn a fydd yn gyfrifol am gadarnhau'r apwyntiad i gael gosodiad mesurydd clyfar yn lle'r mesurydd traddodiadol gyda'r cyflenwr ynni. Y deiliad cyfrif yw'r unigolyn sy'n talu'r bil am unrhyw ynni a ddefnyddir.
<b>Gosod</b>	Gosod mesurydd clyfar a hyb cyfathrebu clyfar ar safle. Nid oes rhaid cynnig sgrîn arddangos glyfar i ficrofusnesau, ond gall cyflenwyr ddewis ei chynnig.
<b>Gosodwr/Gosodwyr</b>	Cynrychiolydd y cyflenwr ynni a fydd yn gosod mesuryddion clyfar yn lle mesuryddion traddodiadol, ac yna gwirio eu bod yn gweithio'n gywir. Byddant hefyd yn sicrhau eich bod yn deall sut i ddefnyddio'ch mesurydd(ion) clyfar newydd a'ch sgrîn arddangos glyfar os caiff ei gosod.
<b>Hyb cyfathrebu clyfar</b>	Darn bach o offer wedi'i osod ar y safle sy'n dal yr holl wybodaeth yn ganolog ac yn trawsgludo'r wybodaeth hon yn ddiwifr o'ch mesurydd clyfar i'ch cyflenwr ynni, gan greu buddion megis newid yn gyflymach rhwng cyflenwyr.
<b>Mesurydd soffistigedig</b>	Gall mesurydd soffistigedig ddarparu data trydan bob hanner awr neu ddata nwy bob awr y gall cyflenwr ei hygyrchu o bell. Gall pob mesurydd clyfar gyfateb i'r diffiniad o fesurydd soffistigedig, ond ni all pob mesurydd soffistigedig fod yn glyfar. Yn gyffredinol gall mesuryddion clyfar gyfathrebu'r ddwy ffordd a chyflawni ystod ehangach o swyddogaethau.
<b>Mesurydd(ion) clyfar</b>	Y genhedlaeth nesaf o fesuryddion ynni gyda data amser real i'n helpu ni i reoli'r ffordd yr ydym i gyd yn prynu ac yn defnyddio nwy a thrydan.
<b>Mesurydd(ion) traddodiadol</b>	Deuir o hyd i fesuryddion traddodiadol ar y rhan fwyaf o safleoedd ar hyn o bryd. Ni allant gyfathrebu ac felly mae'n rhaid i rywun ddod i'w darllen nhw. Byddant yn cael eu disodli gan fesuryddion clyfar yn ystod yr ymgyrch gyflwyno genedlaethol.
<b>Microfusnes(au)</b>	Rhan o gylch gwaith Ynni Clyfar GB yw estyn ein gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr i ficrofusnesau pan dybir ei fod yn gost-effeithiol i wneud hynny. Diffinnir microfusnesau gan y trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan fel y rhai sy'n defnyddio llai na 100,000kWh o drydan / 293,000kWh o nwy y flwyddyn, neu sy'n cyflogi llai na 10 o bobl (cyfwerth ag amser llawn) gyda throsiant nad yw'n fwy na €2 filiwn.

Term	Disgrifiad
<b>Newid</b>	Yn disgrifio newid o un cyflenwr i'r llall, neu rhwng tariffau gydag un cyflenwr.
<b>Ofgem</b>	Ofgem yw'r corff sy'n gyfrifol am ddiogelu defnyddwyr sy'n defnyddio ynni ym Mhrydain Fawr. Mae Ofgem yn rheoleiddio cyflenwyr ynni.
<b>Rhwydwaith cyfathrebu diogel</b>	Y rhwydwaith cyfathrebu diogel yw'r isadeiledd a fydd yn cynnwys nifer o systemau diogel sy'n sicrhau diogelwch cyffredinol data rhwng safle defnyddiwr a defnyddwyr gwasanaeth (cyflenwyr ynni, gweithredwyr rhwydwaith a thrydydd partïon eraill ag awdurdod). Mae diogelwch yn cynnwys mesurau rheoli technolegol, megis amddiffyniad data cryptograffig cryf ac amddiffyniad materol, a mesurau rheoli mynediad.
<b>Sgrîn/sgriniau arddangos glyfar</b>	Teclyn digidol sy'n galluogi chi i weld faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio yn ogystal â faint y mae'n ei gostio bron mewn amser real. Nid oes rhaid cynnig sgrîn arddangos glyfar i ficrofusnesau.
<b>System mesurydd clyfar</b>	Yn disgrifio'r holl elfennau gweithredol y system at ei gilydd y mae eu hangen i ddarparu swyddogaethau mesurydd clyfar o eiddo'r unigolyn i systemau'r cyflenwr ynni.
<b>Tariff</b>	Taliadau am gyflenwi ynni.
<b>Uwchraddio</b>	Y broses o symud o fesurydd traddodiadol i fesurydd clyfar.
<b>Y daith mesurydd clyfar</b>	Y broses o glywed am fesuryddion clyfar hyd at eu defnyddio. y bydd pob defnyddiwr yn ei phrofi.
<b>Y farchnad ynni</b>	Yn cyfeirio at ailwerthu neu a/neu drydan.
<b>Ymgyrch gyflwyno genedlaethol</b>	Gosod 53 miliwn o fesuryddion clyfar mewn 30 miliwn o safleoedd ar draws Prydain Fawr erbyn 2020.
<b>Ynni</b>	Yng nghyd-destun mesuryddion clyfar, mae hyn yn cyfeirio at nwy a thrydan yn unig.
<b>Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd</b>	Adran llywodraeth y DU sydd â gofal materion ynni yn y DU yn ogystal â materion newid yn yr hinsawdd rhyngwladol.

# Atodiad

## Trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan mewn perthynas â microfusnesau

Mae'r diffiniad o ficrofusnes wedi'i sefydlu gan Amodau'r Trwyddedau Cyflenwi Trydan a Nwy<sup>24</sup>. Yn y dogfennau hyn mae'n nodi'r canlynol ar gyfer y ddau yn Amod Trwydded 7A:

7A.14

Mae "Defnyddiwr sy'n Ficrofusnes" yn golygu defnyddiwr annomestig:

- (a) sy'n "ddefnyddiwr perthnasol" (mewn perthynas ag anheddau nad ydynt yn anheddau domestig) at y dibenion yn erthygl 2(1) Gorchymyn Darparwyr Nwy a Thrydan wedi'u Rheoleiddio (Cynllun Unioni) 2008 (S.I. 2008/2268); neu
- (b) sydd â defnydd blynyddol nad yw'n fwy na 100,000 kWh. [Trydan]
- (b) sydd â defnydd blynyddol nad yw'n fwy na 293,000 kWh. [Nwy]

Gan ddefnyddio hyn fel sylfaen, mae'r diffiniad o Ddefnyddiwr Perthnasol wedi'i gynnwys yn y Cyfarwyddyd Statudol 2008/2268<sup>25</sup> ac yn nodi'r canlynol ym mharagraff 2:

mae "defnyddiwr perthnasol" yn golygu defnyddiwr sy'n—

- (a) berson naturiol yn derbyn neu'n mynnu cyflenwad nwy neu drydan mewn annedd ddomestig (ac eithrio'r cyfryw berson yn derbyn neu'n mynnu cyflenwad nwy neu drydan mewn annedd ar wahân i annedd ddomestig; neu
- (b) person sy'n derbyn neu'n mynnu cyflenwad nwy neu drydan mewn annedd ar wahân i annedd ddomestig, gyda —
  - (i) defnydd blynyddol o—
    - (aa) drydan nad yw'n fwy na 55,000 kWh; neu
    - (bb) nwy nad yw'n fwy na 200,000 kWh; neu
  - (ii) (aa) llai na 10 o gyflogeion (neu eu cyfwerth ag amser llawn); a
  - (bb) throsiant neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy nag Ewros 2 filiwn.

<sup>24</sup> Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan, *Deddf Trydan 1989: Amodau safonol trwydded cyflenwi trydan*, cyfunol hyd at 8 Gorffennaf 2015, <https://epr.ofgem.gov.uk/Content/Documents/Electricity%20Supply%20Standard%20Licence%20Conditions%20Consolidated%20-%20Current%20Version.pdf> a Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan, *Deddf Nwy 1986: Amodau safonol trwydded cyflenwi nwy*, cyfunol hyd at 8 Gorffennaf 2015, <https://epr.ofgem.gov.uk/Content/Documents/Gas%20supply%20standard%20licence%20conditions%20consolidated%20-%20Current%20Version.pdf>

<sup>25</sup> Y llywodraeth, *SI 2268/2008, Diogelwch defnyddwyr trydan nwy: Darparwyr rheoledig nwy a thrydan (cynllun diwygio): Rheol 2008*, [http://www.legislation.gov.uk/ukSI/2008/2268/pdfs/uksi\\_20082268\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukSI/2008/2268/pdfs/uksi_20082268_en.pdf)

Yn dilyn ymgynghoriad gan y Llywodraeth<sup>26</sup>, diwygiwyd yr Offeryn Statudol ym mis Awst 2014<sup>27</sup> i alinio'r cyfyngiadau ar ddefnydd ynni gyda'r Amodau Trwydded fel a ganlyn:

2. Yn erthygl 2(1) (dehongliad) Gorchymyn Darparwyr Nwy a Thrydan wedi'u Rheoleiddio (Cynllun Unioni) 2008 (1), yn y diffiniad o "ddefnyddiwr perthnasol"—

(a) yn is-baragraff (b)(i)(aa), yn lle "55,000 kWh", rhwch "100,000 kWh";

(b) yn is-baragraff (b)(i)(bb), yn lle "200,000kWh", rhwch "293,000 kW"

Mae adnabod defnyddiwr sy'n ficrofusnes yn gyfrifoldeb i'r Cyflenwr fel a amlinellir ym mharagraff 7A.1 yr Amodau Trwydded Nwy a Thrydan:

7A.1 Os yw'r trwyddedai'n bwriadu:

(a) ymgymryd â Chontract Cyflenwi Annomestig gyda Chwsmer; neu

(b) estyn cyfnod Contract Cyflenwi Annomestig (gan gynnwys cyfnod unrhyw gyfnod penodol a allai ffurfio rhan o Gontract penagored ei hyd)

mae'n rhaid i'r trwyddedai gymryd yr holl gamau sy'n rhesymol i adnabod p'un a yw'r Cwsmer Annomestig hwnnw'n Gwsmer sy'n Ficrofusnes, neu bennu bod y Cwsmer Annomestig hwnnw'n Gwsmer sy'n Ficrofusnes.

<sup>26</sup> Adran Ynni a Newid Hinsawdd, *Darparwyr rheoledig nwy a thrydan (cynllun diwygio): Rheol 2008 Ymateb i'r ymgynghoriad*, Gorffennaf 2014, [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/325874/RTC\\_Government\\_response.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325874/RTC_Government_response.pdf)

<sup>27</sup> Y Llywodraeth, *SI 2378/2014, Diogelwch defnyddwyr trydan nwy: Darparwyr rheoledig nwy a thrydan (cynllun diwygio) (cywiriad) Rheol 2014*, <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/2378/contents/made>